# Hysbysiad Preifatrwydd

## Cyfarwyddiaeth Rheoli Contractau a Materion Masnachol (CCMD) – un o gyfarwyddiaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn eich gwybodaeth bersonol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio gwybodaeth o'r fath. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut rydym yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth bersonol at ddibenion rheoli ein prosesau a'n gweithgareddau masnachol.

MoJ yw'r rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir mewn perthynas â'ch dyfynbris, tendr, rheoli contractau a gweithgareddau talu.

**Mae'r math o ddata personol rydym yn ei brosesu yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i’r canlynol**

- Enw
- Manylion cyswllt cynigwyr, eu hisgontractwyr, neu staff
- Dyddiad geni
- Manylion banc
- Euogfarnau troseddol (os byddwch yn darparu’r manylion)

Data categori arbennig:

- Hil neu ethnigrwydd (Cenedligrwydd)

**Sut rydym yn cael eich data personol a pham rydym yn ei gadw**

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu yn cael ei darparu i ni yn uniongyrchol gennych chi, ond efallai y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth o ffynonellau eraill megis darparwyr fframwaith eraill, cwsmeriaid / defnyddwyr gwasanaeth cyflenwyr, asiantaethau cyfeirio credyd, cymdeithasau masnach neu sector y farchnad, rheoleiddwyr, cyrff cyhoeddus eraill.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion rheoli ein gweithgareddau masnachol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol:

- Cofrestru cyflenwyr
- Ymgysylltu â'r farchnad / profi
- Cais am wybodaeth, dyfynbrisiau a thendrau
- Dewis a gwerthuso
- Dyfarnu a rheoli contractau
- Prynu a thalu
- Rheoli perthynas gyda chyflenwyr
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau tryloywder
- Prosesau gwrth-dwyll
- Prosesau rheoli a dadansoddi gwariant

- Gofynion addysg, hyfforddiant a datblygu

**Gyda phwy rydym yn rhannu eich data personol**

- Perchnogion a gwylwyr y Gwasanaeth Dod o Hyd i Dendrau, y mae'n ofynnol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyhoeddi gwybodaeth am gontractau arno (gan gynnwys enwau a chyfeiriadau cyflenwyr)
- Sefydliadau eraill sy'n caffael neu'n rheoli contractau gyda ni ar y cyd
- Swyddfa'r Cabinet ac asiantaethau eraill y llywodraeth (at ddibenion adrodd a dadansoddi ynghylch gwariant cyhoeddus)
- Archwilwyr ac arolygwyr mewnol ac allanol
- Gweithredwyr a Rheoleiddwyr

**Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol**

Byddwn yn prosesu eich data personol ar sail Erthygl 6/1/(e) ac (f) GDPR y DU:

- Mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i'r MoJ gyflawni tasg er budd y cyhoedd.
- Mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer yr MoJ yng nghyswllt buddiannau dilys, oni bai bod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n diystyru'r buddiannau dilys hynny.

Byddwn yn prosesu eich data categori arbennig ar sail Erthygl 9/2/(g) GDPR y DU a pharagraff 6 Atodlen 1 DPA 2018:

> Mae'r prosesu'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd sy'n cynnwys dibenion statudol a llywodraethol.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn prosesu data personol, gan gynnwys data personol categori arbennig, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

**Trosglwyddiadau Data Rhyngwladol**

Nid oes unrhyw drosglwyddiadau rhyngwladol.

**Pa mor hir rydym yn cadw eich data personol**

Byddwn yn cadw data yn unol â'n polisïau cadw a gwaredu.

**Sut rydym yn storio eich data personol**

Caiff eich data ei storio'n bennaf ar ein platfform 'contract' diogel ac ar ein systemau diogel mewnol, y mae'r ddau ohonynt yn cydymffurfio â phrotocolau seiberddiogelwch achrededig y DU. Efallai y byddwn hefyd yn storio rhywfaint o ddata personol mewn fformat papur mewn cyfleusterau storio dan glo.

**Eich Hawliau**

- Eich hawl i **gael mynediad** - Mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol.

- Eich hawl i **gywiro** - Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol rydych chi'n credu sy'n anghywir. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth rydych chi'n credu sy'n anghyflawn.
- Eich hawl i **ddilead** - Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau – **dim ond os ydym yn prosesu eich data personol o dan ddiddordeb dilys**
- Eich hawl i gyfyngu ar brosesu - Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.
- Yr hawl i **wrthwynebu** prosesu - Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.

Yn dibynnu ar y sail gyfreithlon dros brosesu'ch data personol, ni fydd pob hawl yn berthnasol.

Nid oes rhaid i chi dalu unrhyw swm o arian i arfer eich hawliau. Os byddwch yn gwneud cais, mae gennym un mis i ymateb i chi. Os ydych am arfer eich hawliau diogelu data, cysylltwch â:

Tîm Datgelu
Post point 10.38
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

data.access@justice.gov.uk

**Sut i gwyno**

Os oes gennych unrhyw bryderon am ein defnydd o'ch data personol, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data y Weinyddiaeth Gyfiawnder -

Swyddog Diogelu Data
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
10th Floor, Post Point 10.31
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

dpo@justice.gov.uk

Gallwch gwyno i'r ICO os nad ydych yn hapus â sut rydym wedi defnyddio eich data.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
Llinell gymorth: 0303 123 1113
Gwefan yr ICO: https://www.ico.org.uk

**Dyddiad yr adolygwyd ddiwethaf – Rhagfyr 2023**